Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – yr ail flwyddyn

Yr Athro Malcolm Harrington

Tachwedd 2011

Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – yr ail flwyddyn

Yr Athro Malcolm Harrington

Tachwedd 2011

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 10
o Ddeddf Diwygio Lles 2007
Llundain: Y Llyfrfa

Cynnwys

Rhagair 5

Crynodeb Gweithredol 9

Rhagair

Roedd yn bleser gennyf gael cais i gynnal ail Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio.

Fel y nodais yn fy Rhagair i'r Adolygiad cyntaf, mae gan gymdeithas a'i dinasyddion gyfrifoldebau at ei gilydd. Disgwylir i'r dinesydd ennill ei fywoliaeth ei hun, ac, o ganlyniad i hynny, dalu trethi i gynnal cymdeithas. Yn ei thro mae gan gymdeithas gyfrifoldebau at y dinesydd, yn cynnwys cynorthwyo'r rheini na allant ennill bywoliaeth eu hunain.

Mae asesu ffitrwydd unigolyn i weithio drwy'r Asesiad Gallu i Weithio yn rhan o hynny: pennu pwy sy'n gallu gweithio a phwy sydd angen cymorth y wladwriaeth. Mae'r Asesiad Gallu i Weithio yn cynnig y cysyniad cywir. Dangosodd blwyddyn gyntaf yr Adolygiad nad oedd y broses o'i weinyddu yn gweithio cystal ag y gallai neu y dylai. Roedd angen diwygio pob cam o'r broses honno er mwyn sicrhau ei bod yn decach ac yn fwy effeithiol. Mae'r gwaith o ailasesu hawlwyr Budd-daliadau Analluogrwydd o fis Ebrill 2011 wedi cynyddu llwyth gwaith pob un dan sylw yn helaeth: Gweithrediadau yr Adran Gwaith a Phensiynau[1], Atos Healthcare, ymgynghorydd gofal iechyd dethol yr hawlydd ac, yn fwy na dim, yr hawlydd, y mae'n bosibl nad yw wedi cael unrhyw asesiad iechyd a gwaith am sawl blwyddyn. Mae hyn yn cynyddu'r angen i wella'r broses yn barhaus.

Hyd yn oed heb ailasesu Budd-dal Analluogrwydd, byddai'r newidiadau a gynigiais i'r system Asesiad Gallu i Weithio wedi cyflwyno her fawr i ddau sefydliad mawr a chymhleth, sef Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Atos. Mabwysiadodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fy nghynigion fel ei pholisi yn gyflym ac aeth Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ati i wneud y newidiadau angenrheidiol gydag egni ac ymroddiad. Cyflawnodd Atos, sydd ar gontract i'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer eu rhan o'r Asesiad Gallu i Weithio, eu gofynion cytundebol.

1 O fis Hydref 2011 diddymwyd statws asiantaeth ffurfiol y Ganolfan Byd Gwaith. Er eglurder a chysondeb drwy'r ddogfen hon cyfeirir at waith y Ganolfan Byd Gwaith cyn mis Hydref 2011 ac unrhyw beth ar ôl hynny fel Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – yr ail flwyddyn

Rwyf wedi gweld y gwelliannau hyn yn y broses o redeg Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Atos o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi cymryd amser ac mae rhai arsylwyr wedi dweud wrthyf nad ydynt wedi gweld unrhyw newid. Mae angen amynedd. Mae'r broses wella yn mynd rhagddi, ond nid oes tystiolaeth ohoni ym mhobman eto. Bydd yn cymryd amser i gael yr effaith ddymunol a bydd yr Adolygiad tair blynedd yn monitro effaith y newidiadau'n ofalus ac yn sicrhau y gwneir cynnydd parhaus yn y gwaith o wella'r asesiad.

Er gwaethaf y cynnydd gwirioneddol a wnaed eleni, ni fyddwn yn ystyried bod pethau'n berffaith am un funud. Erys llawer o feirniadaeth am yr asesiad o hyd – yn enwedig gan unigolion. Yn sicr, ni ddylid anwybyddu'r feirniadaeth hon ac roedd yr Alwad am Dystiolaeth eleni yn arbennig o ddefnyddiol o ran cael safbwyntiau am yr asesiad a sut y gellid ei wella.

Mae gan y prif elusennau a'r clinigwyr sy'n cefnogi eu gwaith gyfoeth mawr o wybodaeth ar flaenau eu bysedd o ran yr anableddau a'r salwch a gynrychiolir ganddynt. Cafwyd cymorth ganddynt wrth wneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r disgrifwyr, ac roedd hon yn broses lwyddiannus yn fy marn i. Byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a diweddaru canllawiau a deunyddiau cymorth ar gyfer y rheini sy'n cynnal yr asesiadau hefyd.

Ni wnaed unrhyw gynnydd gwirioneddol o ran argymhellion sy'n ymwneud â'r broses apelio, yn arbennig mewn perthynas ag adborth gan Dribiwnlysoedd i Swyddogion Penderfyniadau ynghylch rhesymau dros wrthdroi apeliadau. Mae hyn yn siomedig iawn. Cefais lawer o adborth cadarnhaol gan lawer o bobl ynghylch y syniad hwn, ac rwy'n siŵr y byddai'n gwella proses yr Asesiad Gallu i Weithio – a pherfformiad o fewn iddi – pe byddai'n cael ei weithredu. Fodd bynnag, mae Llywydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi fy hysbysu bod materion barnwrol y tu hwnt i'm cylch gwaith.

Erys problemau o hyd o ran cyfathrebu cyn, yn ystod ac ar ôl yr Asesiad Gallu i Weithio hefyd. Mae angen gwella negeseuon am yr Asesiad Gallu i Weithio a beth yw ystyr penderfyniad 'ffit i weithio' o fewn Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae angen rhoi'r gorau i'r syniad bod pobl naill ai'n 'pasio' neu'n 'methu' yr asesiad. Ac yn olaf ymddengys bod angen gwella cysylltiadau rhwng Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau a darparwyr y Rhaglen Waith i sicrhau y rhoddir y cyfle i bobl sy'n gallu gweithio i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Gallu i Weithio – yr ail flwyddyn

Ys dywed Aristotle yn ôl y sôn: "If we believe that men (sic) have any personal rights as human beings, they have an absolute right to such measure of good health as society, and society alone, is able to give them". Heddiw byddem yn dadlau bod gan bobl gyfrifoldebau am eu hiechyd eu hunain hefyd, ond mae gan gymdeithas ran i'w chwarae ac mae'r Asesiad Gallu i Weithio yn rhan o hynny.

Yr Athro Malcolm Harrington

Tachwedd 2011

Crynodeb Gweithredol

1. Cynlluniwyd yr Asesiad Gallu i Weithio i asesu cymhwyster unigolyn i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Ei nod yw gwahaniaethu rhwng y bobl hynny a allai weithio; y bobl hynny a allai weithio ar ryw bwynt gyda'r cymorth cywir; a'r bobl hynny na allant weithio ac, felly, sydd angen cymorth y Wladwriaeth.
2. Canfu'r Adolygiad Annibynnol cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010, fod gan yr Asesiad Gallu i Weithio y cysyniad cywir ar gyfer cyflawni'r nod hwn ond y gallai fod yn amhersonol ac yn fecanistig a bod diffyg tryloywder yn y broses gyda chyfathrebu gwael rhwng y partïon amrywiol. Arweiniodd hyn at wneud penderfyniadau gwael a chyfradd apeliadau uchel, yr oedd llawer ohonynt yn llwyddiannus.
3. Cynigiwyd cyfres o argymhellion i wella tegwch ac effeithiolrwydd yr Asesiad Gallu i Weithio ac fe'u derbyniwyd ar unwaith gan y Llywodraeth.

Gweithredu argymhellion y flwyddyn gyntaf

4. Mae'n bleser gennyf ddweud y gweithredwyd pob un o argymhellion y flwyddyn gyntaf, neu fod y broses o'u gweithredu'n mynd rhagddi. Symudodd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gyflym i wneud yr argymhellion yn bolisi Adrannol ac mae **Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau[2] ac Atos Healthcare wedi gwneud y newidiadau hyn i'r polisi**.
5. **Yn fy marn i, mae'n amlwg bod yr Asesiad Gallu i Weithio wedi newid er gwell**. Fodd bynnag, megis dechrau y mae hyn. Nid yw rhai o'r gwelliannau o'm Hadolygiad cyntaf wedi cyrraedd pob rhan o Weithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.
6. I'r rheini sy'n teimlo nad oes unrhyw beth wedi digwydd, byddem yn dweud bod angen iddynt fod yn amyneddgar. Mae'n digwydd. Nid yw'r broses yn berffaith eto, ond **mae'n gwella a bydd yn parhau i wneud hynny dros gyfnod y pum Adolygiad Annibynnol**.

Canfyddiadau allweddol a themâu o'r Adolygiad hwn

7. Tra bod Adolygiad y flwyddyn gyntaf, ac argymhellion cysylltiedig, yn ystyried proses yr Asesiad Gallu i Weithio a sut y gellid ei gwella, mae Adolygiad yr ail flwyddyn wedi canolbwyntio ar nifer o faterion mwy penodol na chafodd yr Adolygiad cyntaf amser i'w hystyried yn fanwl a fydd yn ategu'r argymhellion o'r flwyddyn gyntaf.

[2] O fis Hydref 2011 diddymwyd statws asiantaeth ffurfiol y Ganolfan Byd Gwaith. Er eglurder a chysondeb drwy'r ddogfen hon cyfeirir at waith y Ganolfan Byd Gwaith cyn mis Hydref 2011 ac unrhyw beth ar ôl hynny fel Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

8. Yn yr Adolygiad hwn rwyf yn cynnig **nifer o argymhellion manylach i wella ymhellach broses yr Asesiad Gallu i Weithio a'r meini prawf a ddefnyddir i bennu cymhwyster ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth**.
9. Mae'r Adolygiad hwn yn nodi cyfres o argymhellion sy'n ategu – ac yn adeiladu ar – yr argymhellion o Adolygiad y flwyddyn gyntaf. Eu nod yw gwella tegwch ac effeithiolrwydd yr asesiad drwy:

    - **Brosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gwell rhwng pob rhan o'r system**

      Bydd hyn yn golygu y bydd pawb dan sylw yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn deall yn well ddiben yr Asesiad Gallu i Weithio a'r rhesymau dros y penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol rhwng Swyddogion Penderfyniadau ac Ymgynghorwyr Personol o fewn Gweithrediadau'r Adran Gwaith a Phensiynau fel bod y rhesymau dros ddod i benderfyniad ac ystyr y penderfyniad hwnnw yn glir. Er nad oes tystiolaeth glir y dylai 'cyflogadwyedd' fod yn un o nodweddion yn yr Asesiad Gallu i Weithio, dylai Swyddogion Penderfyniadau a darparwyr y Rhaglen Waith gysylltu'n agosach er mwyn gwella gallu darparwyr y Rhaglen Waith i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

      Er nad yw Llywydd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn ystyried bod hyn o fewn cylch gwaith yr Adolygiad, byddai gwella dulliau cyfathrebu rhwng Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a Swyddogion Penderfyniadau fel bod y rhesymau dros wrthdroi apeliadau yn glir yn ychwanegu'n sylweddol hefyd at degwch ac effeithiolrwydd proses yr Asesiad Gallu i Weithio.

    - **Cynyddu a gwella tryloywder yr asesiad**

      Mae angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Atos ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol a'u hymgynghorwyr clinigol i sicrhau bod yr arweiniad a roddir i Swyddogion Penderfyniadau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ystod proses yr Asesiad Gallu i Weithio yn gyfoes ac yn gywir yn glinigol; a bydd cyhoeddi data Atos yn rheolaidd yn sicrhau cysondeb ac nad yw'r safonau'n llithro.

    - **Sicrhau y gwneir penderfyniadau o safon**

      Mae angen archwilio perfformiad Swyddogion Penderfyniadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau cyson a chadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u bod – fel Swyddogion Penderfyniadau sydd newydd gael eu grymuso – yn atebol am eu penderfyniadau.

- **Monitro effaith argymhellion o'r Adolygiadau Annibynnol**

  Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y newidiadau'n cael yr effaith ddymunol, ac yn rhoi tystiolaeth o hyn. Gellid cyflawni hyn drwy gasglu mynegrifau ar gyfer newid ar raddfa a maint y cynnydd a wneir; a gwneud gwaith ymchwil i'r hyn sy'n digwydd i bobl sy'n cael eu gosod ym mhob grŵp dros amser.

- Mae angen gwneud penderfyniadau pellach ar y cynigion ar gyfer disgrifwyr meddyliol, deallusol a gwybyddol newydd unwaith y bydd gwaith ymchwil pellach wedi cymharu'r disgrifwyr arfaethedig â'r rhai presennol. Gobeithio y bydd yn bosibl ystyried gwaith ymchwil tebyg ar gyfer y cynigion a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer mireinio'r disgrifwyr amodau cyfnewidiol, neu iddynt ymuno â'r broses hon.

Costau a buddiannau

10. Rwyf yn cydnabod, os cânt eu mabwysiadu, y bydd goblygiadau o ran cost i'r argymhellion hyn.

11. Fodd bynnag, fel gydag argymhellion y flwyddyn gyntaf, o edrych ar y cyd-destun ehangach, mae'r newidiadau arfaethedig yn debygol o arbed costau neu fod yn niwtral o ran cost yn y tymor canolig i'r hirdymor drwy sicrhau y gwneir y penderfyniadau cywir y tro cyntaf a thrwy sicrhau bod pob un dan sylw yn deall pam y gwnaed penderfyniad penodol a'i oblygiadau.

ISBN 978-1-84947-914-1
(h) Hawlfraint y Goron 2011
Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau
Tachwedd 2011
www.dwp.gov.uk/cymraeg